UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Canllawiau ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad:
Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 19 Mehefin 2026 i:

Y Gangen Ariannu Ysgolion
Yr Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ariannu.ysgolion@llyw.cymru

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1
A ydych yn cytuno bod y canllawiau cyffredinol drafft ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 yn rhoi eglurder ynghylch Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
	x			

Sylwadau ategol

Ymddengys fod y ddogfen yn rhoi eglurder ynghylch Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026.

Cwestiwn 2
A ydych yn cytuno bod y canllawiau cyffredinol drafft yn glir ac yn ddealladwy?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		x		

Sylwadau ategol

Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau clir ar gyllido ysgolion. Mae'n cwmpasu'r elfennau amrywiol sy'n rhan o gyllideb ysgol ac yn esbonio mewn modd dealladwy y gwahaniaeth rhwng yr elfennau hyn. Ymddengys fod ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cysondeb a thryloywder. Fodd bynnag, mae angen sicrhau cysondeb rhwng y ddogfen Gymraeg a'r ddogfen Saesneg. Ymddengys fod gair ar goll yn y fersiwn Cymraeg ar hyn o bryd: **'Cafodd y gofyniad i hysbysu pob ysgol am ei chyfrannau amcangyfrifedig o'r gyllideb ar gyfer pob un o'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol gan Reoliadau 2010.'** **Nid yw'r gair 'introduced' a geir yn y Saesneg wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Tybiaf mai'r canlynol ddylai fod yn y Gymraeg:** **'Cafodd y gofyniad i hysbysu pob ysgol am ei chyfrannau amcangyfrifedig o'r gyllideb ar gyfer pob un o'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol ei gyflwyno gan Reoliadau 2010.'** **(Mae hwn bellach wedi ei gywiro, yn dilyn e-bost a anfonwyd atoch - diolch am gywiro hwn).**

Cwestiwn 3
A ydych yn cytuno bod y canllawiau cyffredinol drafft yn esbonio natur wahanol y gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, y gyllideb ysgolion, y gyllideb ysgolion unigol a chyfrannau ysgolion o'r gyllideb yn glir, ac a yw'r ffiniau yn glir?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		x		

Sylwadau ategol

Mae'r esboniad yn eithaf clir, ond tybed a fyddai hi'n gliriach pe bai fformat yr esboniad ychydig yn wahanol e.e. yn 2.1 nodi 'Mae'n cwmpasu:
***meysydd addysg nad ydynt yn ywneud ag ysgolion**
- addysg gymunedol
- gwasanaethau ieuenctid
- cludiant rhwng y cartref a'r coleg

***swyddogaethau i sicrhau mynediad at addysg**
- cludiant rhwng y cartref a'r ysgol
-adeiladau ysgol
- derbyniadau a llesiant cyffredinol disgyblion
ac
***agweddau strategol ar y gwasanaeth addysg yn bennaf.**

Yn 2.2 nodir 'Yr eithriadau eraill yw a) gwariant cyfalaf, patrolau croesi ysgolion a gwariant yr eir iddo at ddibenion cymunedol. Mae'n cwmpasu meysydd o ddarpariaeth addysgol uniongyrchol mewn ysgolion yn bennaf.'

Yn y Rheoliadau eu hyn, nodir fel a ganlyn:

(12) In these Regulations, references to excepted expenditure are references to the following classes or descriptions of expenditure—

(a)capital expenditure other than CERA;

(b)expenditure for the purposes of section 26 of the Road Traffic Regulation Act 1984(15) (arrangements for patrolling school crossing); and

(c)expenditure incurred by the local authority under section 51A of the 1998 Act(16) (expenditure incurred for community purposes).

O ystyried yr uchod, onid:
'Yr eithriadau eraill yw a) gwariant cyfalaf b) patrolau croesi ysgolion ac c) gwariant yr eir iddo at ddibenion cymunedol.
Mae'n cwmpasu meysydd o ddarpariaeth addysgol uniongyrchol mewn ysgolion yn bennaf.'

Mae'r un peth yn wir ar gyfer y fersiwn Saesneg. Roedd cael pwynt a) yn unig yn ymddangos yn rhyfedd wrth ddarllen y ddogfen. Wrth groesgyfeirio at y Rheoliadau,

ymddengys fod b) ac c) yn bodoli hefyd, ond nad ydynt wedi eu nodi felly yn y canllawiau.

Mae 2.6 yn y fersiwn Cymraeg yn aneglur iawn – ymddengys fod problem yma. Nid does modd darllen y siart llif. Mae angen edrych o'r newydd ar dudalen 9 y fersiwn Cymraeg. Nid yn unig nid oes modd darllen y siart llif, ond mae cryn ddryswch rhwng llythrennau e.e. 'nod yw or gyfer Ysgolion' – yn lle 'nad w ar gyfer Ysgolion' (dryswch rhwng o/a) a hefyd 'Oyraniad a Gedwir' yn lle 'Dyraniad a Gedwir'
Unwaith yn rhagor, siom yw nodi bod fersiynau Cymraeg dogfennau Llywodraeth Cymru fel pe baent yn eilradd i'r fersiynau Saesneg.
(Mae'r fersiwn Cymraeg bellach yn glir ac ymatebwyd i e-bost a anfonwyd atoch – diolch am ymateb).

Cwestiwn 4
A ydych yn cytuno bod y canllawiau cyffredinol drafft yn glir mewn perthynas â'r angen am ddull fformiwläig dangosadwy o bennu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
	x			

Sylwadau ategol

Ymddengys y canllawiau cyffredinol drafft yn ddigon clir.

Cwestiwn 5
A ydych yn cytuno bod y canllawiau cyffredinol drafft yn gwahaniaethu'n glir rhwng dirprwyad craidd a dirprwyad dewisol?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
	x			

Sylwadau ategol

Ymddengys fod yr eglurhad yn un digon teg.

Cwestiwn 6
A oes unrhyw feysydd yn y canllawiau cyffredinol drafft yr hoffech gael rhagor o fanylion amdanynt?

Cwestiwn 7
A oes unrhyw feysydd nad ymdriniwyd â nhw eisoes y byddai'n ddefnyddiol ymdrin â nhw yn y canllawiau cyffredinol?

Byddai cael enghreifftiau ymarferol o'r gwahanol elfennau a grybwyllir yn y ddogfen yn fuddiol.

Cwestiwn 8
A ydych yn cytuno bod y canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn rhoi eglurder ynghylch cynlluniau ariannol?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		x		

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9
A ydych yn cytuno bod y canllawiau statudol drafft yn glir ac yn ddealladwy?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		x		

Sylwadau ategol

Ar gyfer y sawl sy'n ymwneud â materion cyllidol, mae'n debyg fod y ddogfen yn ddigon clir.

Cwestiwn 10
A oes unrhyw feysydd yn y canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion yr hoffech gael rhagor o fanylion amdanynt?

Ym mharagraff 4.15 y canllawiau statudol, cyfeirir at hyfforddiant i benaethiaid a llywodraethwyr. A fydd yr hyfforddiant hwn yn hyfforddiant Cenedlaethol neu a fydd

yn amrywio o Awdurdod Lleol i Awdurdod Lleol? Teimlaf y dylid sicrhau cysondeb. Mae'n bwysig sicrhau gwrthrychedd a thryloywder wrth ymdrin â materion cyllidol a sicrhau bod y sawl sy'n craffu ar y cyllidebau yn gwbl annibynnol.

Cwestiwn 11
A oes unrhyw feysydd nad ymdriniwyd â nhw eisoes y byddai'n ddefnyddiol ymdrin â nhw yn y canllawiau statudol ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion?

Byddai cael enghreifftiau ymarferol o'r gwahanol elfennau y sonnir amdanynt yn fuddiol.

Cwestiwn 12
Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y canllawiau cyffredinol a'r canllawiau statudol ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 13
Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau cyffredinol a'r canllawiau statudol er mwyn:

- sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau ategol

Er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mae'n bwysig bod y dogfennau Cymraeg yn cael eu trin yn yr un modd â'r rhai Saesneg. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, mae camgymeriadau yn y fersiwn Cymraeg. Mae'n hollbwysig bod fersiynau yn cael eu gwirio a'u cymharu cyn eu gwneud yn gyhoeddus. Fel un sydd fel rheol yn estyn am fersiynau Cymraeg yn gyntaf, rwyf bellach yn colli hyder yn y fersiynau Cymraeg, gan nad oes sicrwydd eu bod yn gywir.

Yn ogystal â'r materion sydd eisoes wedi eu nodi, dylid tynnu sylw hefyd at yr is-bennawd yn 2.5 'Dirprwyad craiff a dewisol'. Dylai hwn fod yn 'Dirprwyad craidd a dewisol'; tudalen 8 2.5 sonnir am 'ddirprwyad dewiso' yn hytrach na 'dewisol'.
(Diolch am wneud y cywiriadau uchod).

Ar dudalen 11 yn y fersiwn Cymraeg, nodir 'rhaid bod disgybl adnabyddadwy yn gysylltiedig unrhyw gyllid…' Tebyg mai 'rhaid bod disgybl adnabyddadwy yn gysylltiedig ag unrhyw gyllid…' ddylai hwn fod. Yn yr un modd 'yn achos cyllid a ddyrennir yn unol nifer y lleoedd' sydd yn y ddogfen yn hytrach nag 'yn achos cyllid a ddyrennir yn unol â nifer y lleoedd.'

Ar dudalen 16 yn y fersiwn Cymraeg ceir cyfeiriad at '31 Chwefror' tra bo'r fersiwn Saesneg yn nodi '31 March'. I ddechrau nid oes y fath ddyddiad â 31 Chwefror, ond yn ail mae'n warthus nad yw'r Gymraeg yn nodi'r mis cywir.

Mae'n bwysig bod y dogfennau yn darllen yn hawdd a bod y Gymraeg yn naturiol a chywir.

Mae'r uchod eu cywiro yn sgil e-bost a anfonwyd gennyf ar Ebrill 16eg. Gwerthfawrogir y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r e-bost hwnnw, ond hoffwn fynegi fy siom fod yn rhaid i Gymry Cymraeg gael fersiwn 'ail orau' yn hytrach na fersiwn sy'n cyfateb o ran safon i'r fersiwn Saesneg.

Cwestiwn 14
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Bod yn ddienw
Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn.	